Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol:  Gwelliant Sylweddol

Ysgol Glan Y Môr

Ffordd Caerdydd
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5NU

Dyddiad yr ymweliad:  Mehefin 2026

gan

Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Glan y Môr wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llawn i'r argymhelliad hwn.

### A2. Gwella presenoldeb

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi ffocysu'n strategol a phwrpasol ar sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn gyson. Mae ailstrwythuro cyfrifoldebau arweinyddiaeth yr ysgol wedi cynyddu capasiti yn y maes hwn. Bellach, mae gweithdrefnau clir er mwyn ymyrryd pan mae disgyblion yn absennol ac i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd. O ganlyniad, mae data mewnol yr ysgol, sydd heb ei ddilysu, yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod yng nghyfraddau presenoldeb disgyblion eleni.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd trwyadl o ddata i olrhain presenoldeb unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae system glir a graddedig o ymyraethau ac mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth amserol i diwtoriaid dosbarth a phenaethiaid blwyddyn er mwyn iddynt gefnogi grwpiau targed penodol. Maent yn gwneud defnydd rheolaidd o ddadansoddiadau data wythnosol gan gymharu tueddiadau â rhai lleol a chenedlaethol, ynghyd ag adolygu grwpiau targed bob pythefnos. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i arfarnu effeithiolrwydd yr ymyraethau ac addasu'r rhain, yn ôl yr angen. Rhoddir pwyslais cynyddol ar wrando ar lais disgyblion a deall y rhesymau dros bresenoldeb isel. Mae hyn wedi cyfrannu at ddatblygu ymatebion mwy personol a phriodol i anghenion unigolion. Mae strwythurau rheolaeth llinell clir yn eu lle ar gyfer dal y timau sy'n gweithio ar wella presenoldeb i gyfrif am eu gwaith. O ganlyniad, mae cwymp wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus.

Mae arweinwyr yn adnabod y cyswllt agos sydd rhwng y ddarpariaeth lles, y cwricwlwm a'r gefnogaeth i wella presenoldeb. Maent yn teilwra'r cwricwlwm i unigolion yn ôl yr angen ac mae'r ddarpariaeth yn yr 'Hafan' a'r 'Ganolfan Ddysgu' wedi datblygu ymhellach ers yr arolygiad craidd. Mae'r ysgol wedi cryfhau'r cydweithio ag asiantaethau allanol i gefnogi

disgyblion sy'n wynebu rhwystrau rhag mynychu. Mae system wobrwyo glir ar waith i hyrwyddo presenoldeb da ac mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn gyson gyda disgyblion a rhieni. Mae tiwtoriaid dosbarth yn trafod y rhesymau dros fynychu yn gyson er mwyn meithrin dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd presenoldeb uchel. Nodwedd gref o'r gwaith hwn yw'r pwyslais ar gael disgyblion i ddeall goblygiadau absenoldebau.

Yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, mae cyfraddau presenoldeb ysgol gyfan wedi gwella'n sylweddol. Mae'r cyfraddau, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, bellach yn cymharu'n agos â'r hyn a welir mewn ysgolion tebyg. Nodwedd gref yw'r modd mae cyfraddau presenoldeb Blynyddoedd 7 ac 8 bellach yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, er y gwelliant, mae cyfraddau presenoldeb yn parhau'n is na'r hyn a welwyd cyn cyfnod y pandemig.

## A3. Sicrhau bod athrawon pob amser yn cynllunio'r addysgu, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer y medrau, i herio disgyblion hyd eithaf eu gallu.

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi gweithredu'n synhwyrol i ddatblygu addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau. Mae arweinwyr wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i staff sy'n canolbwyntio'n addas ar agweddau pwysig, megis sicrhau her briodol mewn gwersi a datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Maent wedi cyflwyno ystod o strategaethau i ddatblygu arferion addysgu. Mae rhain yn cynnwys sefydlu gweithgor addysgu a dysgu a chynnal sesiynau wythnosol i ysgogi staff i drafod addysgeg a rhannu arferion da. Yn ogystal, mae gwaith priodol wedi ei gyflawni i wella ansawdd gwaith cynllunio athrawon. Trwyddi draw, mae'r ysgol wedi sicrhau gwelliannau addas i effeithiolrwydd addysgu.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn fodelau iaith da. Maent yn bwydo terminoleg bynciol ac yn cyfoethogi geirfa disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon hyn yn darparu cyfarwyddiadau ac esboniadau clir a chefnogant y disgyblion wrth eu gwaith wrth gylchu'r dosbarth yn holi cwestiynau ac yn annog cyfranogiad unigolion a grwpiau. Maent yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn ystyried yn briodol yr hyn maent am i ddisgyblion ei ddysgu. Maent yn cynllunio cyfres o weithgareddau sy'n adeiladu'n synhwyrol ar ei gilydd i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau clir a gosodant her briodol. Holant gwestiynau effeithiol er mwyn gwirio gwybodaeth a dyfnhau dealltwriaeth disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a buan yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol a'u medrau ehangach. Yn yr enghreifftiau hyn, mae athrawon yn:

- arddangos brwdfrydedd heintus ac angerdd am eu pynciau sy'n ysbrydoli disgyblion
- herio disgyblion hyd eithaf eu gallu trwy ddefnyddio eu hadnabyddiaeth o gryfderau unigolion a'u meysydd i'w gwella i deilwra'r ddarpariaeth yn grefftus
- cynllunio'n feistrolgar trwy blethu cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gynyddol
- cyfarwyddo'r dysgu yn fedrus gan ddefnyddio cwestiynau i fonitro cynnydd disgyblion fel eu bod yn addasu lefel yr her a chyflymder yr addysgu i weddu'r dysgu

Yn yr ychydig wersi ble nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, mae athrawon yn aml yn gor-gyfarwyddo'r dysgu neu'n cyflwyno tasgau sylfaenol ac ailadroddus yn hytrach na datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion, a'u gallu i feddwl. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn colli cyfleoedd i wirio dealltwriaeth disgyblion trwy holi cwestiynau treiddgar a datblygu eu medrau.

Mae'r ysgol wedi addasu'r polisi adborth ac asesu i gyflwyno canllawiau cliriach i athrawon. Golyga hyn fod ansawdd yr adborth a gynigir i ddisgyblion yn fwy penodol a chlir na'r hyn a welwyd adeg yr arolygiad craidd. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn cynnig sylwadau penodol ac eglur ynglŷn a sut gall disgyblion wella eu gwaith. Maent yn rhoi cyfleoedd amserol iddynt weithredu ar y sylwadau hyn. Mae athrawon iaith yn tynnu sylw at gamsillafu, camgymeriadau gramadegol ac atalnodi yn briodol. Fodd bynnag, ni wneir hyn mor gyson mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr wedi cydweithio'n briodol i wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y medrau. Mae cydlynwyr y medrau yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar y ddarpariaeth, gan gynnig arweiniad a hyfforddiant defnyddiol i staff. Ers adeg yr arolygiad craidd, mae mwy o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu datblygu medrau llythrennedd disgyblion, gan gyflwyno strategaethau amrywiol i wella eu medrau llafaredd ynghyd â strategaeth ddarllen. Mae arweinwyr canol perthnasol wedi elwa ar gefnogaeth i gynllunio cyfleoedd mwy pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau darllen ac ysgrifennu o fewn eu pynciau. Bellach, mae'r ysgol yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau sylfaenol a'u huwch fedrau darllen mewn cyd-destunau priodol. Yn ogystal, mae mwy o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau ysgrifennu mewn amrywiol gyd-

destunau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu medrau llythrennedd.

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi ffocysu ar sicrhau bod y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn cynnig lefel o her addas ac yn cyfoethogi'r dysgu o fewn pynciau perthnasol fel gwyddoniaeth a daearyddiaeth. Bellach, mae cyfleoedd buddiol mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. O fewn gwersi mathemateg, mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso eu dealltwriaeth rhifiadol a datblygu eu gallu i resymu. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn ffocysu'n ddigonol ar feithrin dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu gallu i ddatrys problemau. O ganlyniad, nid yw dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol bob amser yn ddigon dwfn.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd buddiol i greu inffograffeg, podlediadau, gwefannau ac animeiddiadau. Mae cyfleoedd hefyd iddynt ddefnyddio meddalwedd i gyfansoddi cerddoriaeth ac amrywiaeth o becynnau i greu dyluniadau. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn y maes hwn.

Trwyddi draw, mae ansawdd addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau wedi gwella o gymharu ag adeg yr arolygiad craidd. Mae lefel yr her a ddarperir i ddisgyblion gan athrawon yn datblygu'n addas.

## A4. Cryfhau'r arweinyddiaeth strategol gan gynnwys sut y dosrennir cyfrifoldebau i gynyddu capasiti mewn meysydd pwysig i'w gwella a chynyddu atebolrwydd.

Mae arweinyddiaeth strategol wedi cryfhau'n sylweddol ers adeg yr arolygiad craidd**.** Ers ei benodi yn Ionawr 2026, mae'r pennaeth mewn gofal wedi gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol, rhoi strwythurau synhwyrol ar waith a sefydlu trefniadau atebolrwydd cadarn. Mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol yn y meysydd yr oedd angen eu gwella yn sylweddol.

Yn yr amser byr ers ei benodi, mae'r pennaeth mewn gofal wedi cydweithio'n llwyddiannus â'r dirprwy bennaeth er mwyn tynnu staff ynghyd. Maent yn hyrwyddo ethos cryf o gydweithio ac arddel diwylliant o welliant traws-ysgol. Erbyn hyn, mae cymuned yr ysgol, gan gynnwys y disgyblion, yn arddangos ysbryd clir o gyd-ddyheu i sicrhau gwelliant. Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithgor lles staff sydd yn fforwm gwerthfawr i drafod materion o bwys a hyrwyddo llesiant.

Mae'r pennaeth mewn gofal, gyda chefnogaeth y corff llywodraethol, wedi penodi aelodau parhaol i'r uwch dîm arwain. Dosrannwyd eu cyfrifoldebau yn synhwyrol ac yn unol ag

arbenigeddau neu gryfderau unigolion. O ganlyniad, mae ganddynt nawr y capasiti i gyflawni eu gwaith yn strategol. Mae'r uwch dîm arwain sefydlog hwn yn cydweithio'n effeithiol ac yn cyfrannu'n fuddiol at yr ymdeimlad cryf o dîm ymysg staff. Mae arweinwyr wedi datblygu perthynas broffesiynol fuddiol â phartneriaid gwella allanol ac wedi elwa ar eu harbenigedd i gryfhau arweinyddiaeth mewn meysydd pwysig. Mae aelodau'r uwch dîm arwain yn ymgymryd â'u gwaith i ymateb i'r argymhellion penodol yn gydwybodol, gyda hyder cynyddol.

Mae trefniadau atebolrwydd ar bob lefel yn eglur ac wedi cryfhau ers adeg yr arolygiad craidd. Ceir cyfarfodydd rheolaeth linell rheolaidd, pwrpasol a strwythuredig. Gosodir agendâu clir a cheir cysondeb o ran meysydd trafod. Mae natur y sgyrsiau'n broffesiynol a gan amlaf maent yn canolbwyntio'n briodol ar faterion pwysig megis dysgu ac addysgu, ansawdd y ddarpariaeth a materion rheolaethol. Mae rolau a chyfrifoldebau arweinwyr canol yn eglur ac mae'r disgwyliadau ohonynt wedi eu diffinio'n glir. Mae llawer o arweinwyr canol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Maent yn datblygu'n briodol yn eu rolau i ddwyn eu hadrannau'n atebol am eu gwaith. Er bod peth anghysondeb o ran sicrhau gwelliannau, mae effaith arweinwyr canol ar waith yr ysgol wedi datblygu cryn dipyn ers cyfnod yr arolygiad craidd.

O ganlyniad i arweinyddiaeth ddosranedig gref, ceir gwelliannau mewn nifer o feysydd ers adeg yr arolygiad craidd. Mae'r rhain yn cynnwys y materion diogelu a godwyd, presenoldeb, ansawdd yr addysgu a'r her a gynigir i ddisgyblion, darpariaeth ar gyfer datblygiad cynyddol y medrau ac ansawdd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant.

## A5. Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ffocysu ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion

Ers yr arolygiad craidd, mae prosesau'r ysgol ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella wedi cryfhau ac mae ffocws cynyddol ar werthuso'r ddarpariaeth yn ôl ei heffaith ar ddeilliannau disgyblion. Erbyn hyn, mae arweinwyr ar bob lefel â gwell dealltwriaeth o'u rôl strategol wrth ymgymryd â gweithgareddau hunanwerthuso er mwyn sicrhau gwelliant ysgol gyfan. Mae'r trefniadau ar gyfer hunanwerthuso wedi eu mireinio'n effeithiol. Bellach, mae arweinwyr yn triongli'r dystiolaeth maent wedi ei chasglu trwy arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau, cyfarfodydd llais y disgybl ac, i raddau llai, dadansoddiadau o ddata. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o gryfderau a meysydd penodol i'w gwella o fewn adrannau ac ar draws yr ysgol.

Mae canllawiau ysgol gyfan ac ystod briodol o sesiynau dysgu proffesiynol buddiol wedi cefnogi aelodau'r uwch dîm arwain ac arweinwyr canol i fireinio eu medrau arfarnu. O ganlyniad, mae llawer o arweinwyr yn dangos hyder cynyddol wrth werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion. Mae penaethiaid blwyddyn yn dadansoddi data presenoldeb yn effeithiol i nodi disgyblion sydd angen cymorth ac i drefnu cefnogaeth

amserol. Mae trefniadau dilysu cadarn, megis aelodau o'r uwch dîm arwain yn cyd-graffu ar waith, yn cyfrannu at gysondeb barn ac yn cryfhau gallu arweinwyr canol i werthuso'n gywir. Er hyn, mae ychydig o arweinwyr canol yn dibynnu'n ormodol ar gymorth rheolwyr llinell. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr hyn yn adnabod yn annibynnol yr union agweddau sydd angen eu gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae'r cyfarfodydd cyswllt wythnosol rhwng rheolwyr llinell a rheolwyr canol yn ffocysu'n ddefnyddiol ar werthuso'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn y cynlluniau gwella. Mae'r prif negeseuon o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu rhannu'n amserol mewn cyfarfodydd adran. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i staff gymryd rhan yn y broses hunanwerthuso, gan gynnwys craffu ar waith a thrafod canfyddiadau gweithgareddau llais y dysgwr.

Yn gyffredinol, mae'r gwelliannau mewn prosesau hunanwerthuso wedi cyfrannu'n gadarnhaol at welliannau yn ansawdd yr addysgu, safonau gwaith, agweddau at ddysgu a phresenoldeb disgyblion.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.